

<b>Teitl y swydd</b>	<b>Cynhyrchydd</b>		
<b>Teulu'r swydd</b>	<b>Cynhyrchu Cynnwys</b>	<b>Band Arfaethedig</b>	<b>D</b>

### **Pwrpas y swydd**

Bydd y Cynhyrchydd yn arwain ac yn ysbrydoli tîm i ddatblygu a chyflwyno cynnwys, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau creadigol a golygyddol uchaf, yn darparu ar amser ac yn unol â'r gyllideb, gan lynu at ganllawiau'r BBC.

### **Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd**

- Cynhyrchu cynnwys unigryw ar amrywiaeth o lwyfannau.
- Gweithio'n effeithiol gydag adrannau, cyflenwyr a phartneriaid (mewnol ac allanol) eraill, gan sicrhau bod y BBC yn cynnal cysylltiadau rhagorol bob amser.
- Arwain, cymell a chefnogi tîm, gan sicrhau bod y weledigaeth olygyddol yn cael ei chyfathrebu a'i deall.
- Cyfrifoldeb dros reoli prosiect yn briodol i'r ddisgyblaeth dan sylw, fel creu amserlen gynhyrchu lawn a chyllideb ar y cyd â'r Rheolwyr Cynhyrchu ac eraill.
- Sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu ein cynulleidfaedd amrywiol.
- Dirprwyo ar ran uwch aelodau'r tîm pan fo'n briodol.
- Bod â'r wybodaeth ddiweddaraf o ran tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant.
- Lle bo'n berthnasol, ymgysylltu â thimau Hawliau a thrafodwyr contractau a sicrhau bod hawlfraint a chontractau yn glynu at reoliadau'r BBC.
- Datblygu a rheoli perthynas waith gadarnhaol gyda'r staff, cyfranwyr a thalent, a gallu rhoi adborth adeiladol.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau a strategaethau'r adran.
- Ceisio gwelliannau o ran cynhyrchu cynnwys i ddatblygu effeithlonrwydd pellach yng nghyswllt arferion gwaith.
- Atebol am gydymffurfiaeth a darparu cynnwys, gan weithredu o fewn canllawiau Golygyddol, Cyfreithiol ac Iechyd a Diogelwch y BBC.

### **Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad**

#### **Hanfodol**

- Gwybodaeth drylwyr am ganllawiau golygyddol y BBC a pholisiau cydymffurfio eraill, neu fod ag awydd dysgu'r wybodaeth hon yn gyflym.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd y BBC o ran cywirdeb a didueddrwydd.
- Brwdfrydedd a dealltwriaeth dda iawn o'r maes y mae'r swydd yn gweithredu ynddo.
- Hanes llwyddiannus yn y maes y mae'r swydd yn gweithredu ynddo gyda dealltwriaeth eang o brosesau cynhyrchu.
- Profiad amlwg o'r dulliau a'r technolegau cynhyrchu diweddaraf.
- Barn olygyddol ragorol a gwybodaeth am y gynulleidfa darged, eu hanghenion a'u disgwyliadau.
- Profiad o ddylanwadu, trafod a chyfathrebu'n effeithiol yn fewnol a gydag asiantaethau/partneriaid allanol.

- Gallu sefydlu perthynas effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir gydag ystod eang o bobl, talentau, partneriaid ac asiantaethau.
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol. Gallu ymdopi â sawl math o waith ar yr un pryd, gan flaenoriaethu, cyflawni o fewn amserlenni tynn yn gyson ac ymateb yn gadarnhaol i newidiadau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Barn olygyddol gadarn a gwybodaeth drylwyr o ganllawiau golygyddol a chyfreithiol.
- Profiad amlwg o fynd â syniadau ymlaen o'r cysyniad i'r cynnyrch gorffenedig tra'n gyrru creadigrwydd ymlaen.
- Gallu arwain tîm i ddatblygu syniadau creadigol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol mewn amgylchedd creadigol heriol.
- Profiad o reoli ac ysgogi tîm, a rheoli perfformiad yn weithredol, gan gynnwys talentau.
- Gallu cyfathrebu a chyfrannu at strategaeth yr adran fel bo'r gofyn.
- Meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am gynulleidfaoedd amrywiol y BBC, eu hanghenion a'u disgwyliadau, a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio cynnyrch creadigol a diddorol.
- Yn meddu ar y gallu i ystyried ystod o broblemau ac yn defnyddio'i farn ei hun i gymhwyso atebion effeithiol, pan fo amser yn bwysig iawn.
- Profiad a gwybodaeth o reoli cyllidebau ariannol ac amserlenni cynhyrchu.

## Effaith y swydd

### *Gwneud penderfyniadau*

Gallai'r Cynhyrchydd fod yn atebol i amrywiol rolau, yn dibynnu ar y maes mae'n gweithio ynddo, ond fe allai amrywio o Gynhyrchydd Cyfres a Chynhyrchydd Gweithredol i Bennaeth Adran.

### *Cwmpas*

Mae gan Gynhyrchwyr reolaeth gyffredinol dros bob agwedd o gynhyrchiad. Maent yn dwyn ynghyd ac yn cymeradwyo'r holl dîm cynhyrchu. Eu cyfrifoldeb allweddol yw creu amgylchedd lle y gall doniau'r cyfranwyr a'r criw ffynnu. Mae cynhyrchwyr yn atebol am lwyddiant y gynhyrchiad gorffenedig a byddant yn llywio'r cynhyrchiad o'r dechrau hyd nes iddo gael ei gwblhau a thu hwnt.

## Gwybodaeth arall

### At ddefnydd y Tîm Dyfarnu yn unig

Cod y Swydd

Diffiniad:

Cynnwys

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif gyfrifoldebau, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer perfformio i lefel foddhaol. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.*

## Atodiad

Mae'n bosibl y bydd is-setiau o'r swydd gyffredinol a ddisgrifir uchod yn gofyn am sgiliau technegol ychwanegol. Ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, mae modd datblygu'r atodiad hwn i'r disgrifiad swydd cyffredinol.

<b>Is-adran</b>	Wedi'i sgriptio - Pobol y Cwm.
<b>Yn atebol i (teitl)</b>	Cynhyrchydd y Gyfres
<b>Lleoliad</b>	Porth y Rhath

### **Cyfrifoldebau ac atebolrwydd ychwanegol sy'n benodol i'r swydd**

Rheoli proses storio'r gyfres. Rheoli, arwain ac ysbrydoli yr awduron a'r tîm golygyddol.

Rheoli'r broses storio; arwain ac ysbrydoli'r storiwyr. Trefnu a rheoli straeon y gyfres (gwerth 250 pennod y flwyddyn).

Dadansoddi holl frasluniau'r gyfres gan ddarparu nodiadau storiol, golygyddol ac ymarferol arnynt. Arwain y cyfarfodydd brasluniau gyda'r Golygyddion a sicrhau bod y Golygyddion yn trosglwyddo'r nodiadau hynny i'r awduron.

Meddu ar ymwybyddiaeth drylwyr o gyfyngiadau argaeledd a logisteg y gyfres, gan sicrhau nad yw'r straeon sy'n cael eu cymeradwyo yn amhosibl i'w ffilmio, nac yn rhoi gormod o bwysau ar batrymau ffilmio'r gyfres. Cydweithio'n gyson gyda'r Rheolwyr Cynhyrchu a'r Rheolwr Llinell i'r y perwyl hwn.

Nodi unrhyw bryderon o ran ansawdd neu barhad a chymryd y camau angenrheidiol i ddatrys rhain.

Llunio holl amserlenni golygyddol y gyfres – creu amserlenni blynyddol yr awduron llawrydd a chreu amserlenni golygyddol pob bloc storiol.

Bod yn bwynt cyswllt storiol i actorion a chyfarwyddwyr.

Bod wrth law yn ystod y cyfnod ffilmio i ddatrys unrhyw gwestiynau storiol ar lawr stiwdio.

Dod o hyd i a hyfforddi awduron newydd ar gyfer storio a sgriptio'r gyfres.

Goruchwylio prosesau ymchwil y gyfres.

Mynychu cyfarfodydd gydag'r adran gyfreithiol ac Urdd yr Awduron, gan sicrhau'r cytundebau mwyaf manteisiol ac addas i'r gyfres.

Dealltwriaeth o gyfraith hawlfraint, cytundebau Urdd yr Ysgrifenyddwyr, contractau a goblygiadau cyfreithiol y broses gynhyrchu.